**Pwyllgor Diwylliant CC 15-02 (p.2)**

**Dyddiad: 17 Gorffennaf 2002**

**Amser: 9.00am - 12.15pm**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## Diben

**1.** Mae Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Diwylliant wedi nodi eu bod yn dymuno cynnal Adolygiad o Chwaraeon yng Nghymru ac maent wedi gofyn am bapur safbwynt.

Mae'r papur hwn yn ymateb i'r cais hwnnw.

**2.** Bydd Dr Huw Jones, Prif Weithredwr Cyngor Chwaraeon Cymru yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor Diwylliant ar Adroddiad Blynyddol 2001 y Cyngor a'i Gynllun Gorfforaethol ar gyfer 2003-2006 yn ystod y cyfarfod ar 17 Gorffennaf.

## Crynodeb

**3.** Mae'r Papur hwn:

- yn cyfeirio at bwysigrwydd chwaraeon;
- yn tynnu sylw at faterion allweddol a gododd o adroddiad diweddar a baratowyd gan y Comisiwn Archwilio ar chwaraeon a rôl y Llywodraeth;
- yn cyflwyno ffeithiau a ffigurau am chwaraeon yng Nghymru a'r DU;
- yn crynhoi rhai meysydd yn y maes chwaraeon y mae'r Cynulliad wedi bod ynghlwm â hwy ers 1999;
- yn amlinellu rôl y Cyngor Chwaraeon a rhai o'i brif fentrau;

**4. Pwysigrwydd Chwaraeon**

- Mae chwaraeon yn cyfrannu at amrywiaeth o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol**;**
- Gall chwaraeon greu manteision i unigolion, cymunedau a'r wlad gyfan;
- Gall chwaraeon roi boddhad personol trwy roi cyfle i sbarduno corff a meddwl ac i

gymdeithasu;

- Gall chwaraeon annog pobl ifanc i fod yn ddinasyddion da;
- Profwyd bod chwaraeon yn helpu i wella iechyd corfforol a meddyliol;
- Gall chwaraeon effeithio ar ddatblygiad gwybyddol, emosiynol ac ysgogol a allai arwain at berfformiad academaidd gwell ymhlith pobl ifanc;
- Gall chwaraeon hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a gall helpu i ddatblygu sgiliau personol;
- Gall chwaraeon ddylanwadu ar ein heconomi a gall helpu i hybu buddsoddiad. Amcangyfrifir bod defnyddwyr yn gwario £15.2bn ar chwaraeon yn y DU, neu 2.6% o gyfanswm gwariant traul.
- Cyfartaledd o 46% o boblogaeth y DU sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon 12 gwaith y flwyddyn o'i gymharu â 70% yn Sweden ac 80% yn y Ffindir;
- Amcangyfrifir bod llywodraethau'r DU yn gwario cyfanswm o £2bn y flwyddyn ar chwaraeon, y mwyafrif (85%) yn cael ei ddarparu gan lywodraeth leol.

## 5. Adroddiad y Comisiwn Archwilio ar Chwaraeon

Paratowyd adroddiad yn ddiweddar gan y Comisiwn Archwilio ar chwaraeon a hamdden yn Lloegr yn deillio o arolygiadau gwerth gorau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaeth awdurdodau lleol a chodwyd rhai o'r materion canlynol:

- Mae angen dealltwriaeth well o anghenion cymunedau er mwyn defnyddio'r arian a fuddsoddir yn well er lles cymunedau;
- Mae nifer o garfannau yn annog newid o fewn chwaraeon a hamdden, gan gynnwys sector preifat sydd yn tyfu'n gyflym (e.e. clybiau David Lloyd). Gall cyfleusterau deniadol y sector preifat arwain at berygl y bydd llai o bobl yn defnyddio cyfleusterau awdurdodau lleol;
- Mae awdurdodau lleol yn ddarparwyr chwaraeon a hamdden allweddol ond nid oes dyletswyddau statudol arnynt yn hyn o beth ac mae pob awdurdod yn rhydd i bennu ei flaenoriaethau strategol a'i wariant ei hun - gyda chanlyniadau amrywiol;

- Dylai bod parodrwydd i newid y mecanweithiau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau chwaraeon.

- Roedd awgrymiadau ar sut i wella yn cynnwys:
- canolbwyntio ar ddiben a blaenoriaethau,
- mecanweithiau cyflwyno gwasanaethau priodol
- yr angen i ystyried camau ymarferol
- pan fo awdurdodau lleol yn datblygu strategaeth chwaraeon dylai fod yn gysylltiedig â strategaeth ddiwylliant leol

**6. Chwaraeon yng Nghymru**

- Mae nifer o sefydliadau yn gyfrifol am ddarparu chwaraeon yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru; Awdurdodau Lleol, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyrff Llywodraethol y Campau, Clybiau Chwaraeon, Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion a Chlybiau Cymunedol.

- O ran rhyw, mae dynion dal yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon na merched, gyda 53% o ddynion o'i gymharu â 41% o ferched yn cymryd rhan yn 1997/98. Mae Cynllun i Gymru yn gosod nod, fel rhan o'r amcan cyffredinol i gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan, i haneru'r bwlch rhwng faint o ddynion a merched sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon erbyn 2005.

**7. Arolygon Chwaraeon**

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor Chwaraeon gyfres o arolygon yn cynnwys 22 awdurdod lleol Cymru ac ers hynny maent wedi paratoi cyfres o adroddiadau. Ceir siart crynodeb yn dangos nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru yn **Atodiad 1 ynghyd ag enghreifftiau o'r adroddiadau.**

Bydd y Cyngor Chwaraeon yn dilyn ymlaen o'r ymarfer hwn gyda chyfarfodydd unigol â phob awdurdod lleol i lunio a chytuno ar gynlluniau gweithredu. Mae nod gan y Cyngor Chwaraeon i haneru'r bwlch rhwng y rhanbarthau sydd â llawer o bobl yn cymryd rhan a'r rheini sydd heb lawer erbyn 2005.

**8. Cynulliad Cenedlaethol Cymru / Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Isod, rhestrir rhai meysydd y mae'r Cynulliad wedi bod ynghlwm â hwy ers 1999:

- Sefydlu Tasglu Byw'n Iach a Gweithgar;
- Darparu cymorth ariannol i'r Gemau Olympaidd Arbennig a gynhaliwyd yng Nghaerdydd;
- Sefydlu'r Fforwm Pêl-droed;
- Sefydlu Fforwm Ymwybyddiaeth am Weithgareddau Awyr Agored Cymru;
- Chwarae rôl bwysig wrth ddenu Cwpan Ryder yn 2010;
- Darparu cymorth ariannol i Stadiwm y Mileniwm plc tuag at gynnal rownd derfynol Cwpan yr FA a digwyddiadau eraill;
- Gosod blaenoriaethau strategol yn y Cynllun i Gymru i gael pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, yn enwedig menywod, merched a phobl ifanc.
- Lansio'r Strategaeth Ddiwylliant sydd yn nodi nifer o amcanion sy'n ymwneud â chwaraeon, megis cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon;
- Mae'r Cyngor Chwaraeon wedi darparu cymorth ariannol i Gyngor Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru tuag at y tîm a fydd yn cystadlu yn y Gemau ym Manceinion eleni;
- Mae'r Cyngor Chwaraeon a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penodi Cydlynydd Datblygu Cenedlaethol mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol fel rhan o Gynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol Cymru;

- Darparu cymorth ariannol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Ynys Môn i gynnal astudiaeth ddichonoldeb mewn cysylltiad â chyflwyno cais i gynnal Gemau'r Ynysoedd yn 2009.

**9. Cyngor Chwaraeon Cymru**

**Cefndir**

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn Gorff a Noddir gan y Cynulliad.

Cyflwynwyd y Siarter Frenhinol i'r Cyngor Chwaraeon ym 1972 a gwnaed rhai diwygiadau ym 1997. Yn ystod 1999, deisebodd y Cyngor y Frenhines i wneud newidiadau pellach i'r Siarter er mwyn trosglwyddo'r pwerau oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyfanswm y cymorth grant a neilltuwyd i'r Cyngor Chwaraeon ar gyfer 2002/2003 oedd £9.4m (£7.958m i'w gyfrif fel arian parod). O'r 76 o gyrff llywodraethu campau yng Nghymru sy'n cael eu cydnabod gan y Cyngor Chwaraeon, mae 58 yn cael cymorth ariannol ac mae tua 52% o'r gyllideb yn ariannu 83 o swyddi. Yn ei rôl fel dosbarthydd arian y loteri, bydd y Cyngor

Chwaraeon yn dosbarthu dros £11m y flwyddyn ariannol hon i amrywiaeth o brosiectau trwy Gymru.

Cenhadaeth y Cyngor Chwaraeon yw:

- cael mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon o ran nifer y bobl a pha mor aml byddant yn ymarfer;
- codi safonau o ran perfformiad a rhagoriaeth mewn chwaraeon
- gwella cyfleusterau
- darparu gwybodaeth dechnegol a chyngor a dealltwriaeth gyffredinol am chwaraeon a hamdden.

Mae 14 o aelodau, a benodwyd gan y Cynulliad ar fwrdd statudol y Cyngor Chwaraeon (gan gynnwys y cadeirydd). Dyma'r aelodau cyfredol:

Gareth Davies - Cadeirydd, Anne Ellis MBE - Is-Gadeirydd, Philip Lloyd Jones

Ieuan Lewis, Clive Thomas, Peter Huw Thomas, Keith Evans, Susan Williams

Lynette Harris, David Davies, Lynn Davies MBE, Christine Gittoes,

Delyth Morgan, Dr Sue Noake.

## 10. Mentrau'r Cyngor Chwaraeon - Merched mewn Chwaraeon

Mae'r maes hwn yn parhau i gael pwyslais ychwanegol yn rhaglenni'r Cyngor Chwaraeon. Mae nifer o fentrau ar waith, sydd wedi'u hanelu at gynyddu nifer y merched a menywod sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Mae’r rhain yn cynnwys:

### Merched yn Gyntaf

Mae'r cynllun hwn yn cynnig hyd at £1,000 i ysgolion uwchradd i helpu i ddarparu cyfleoedd allgyrsiol i ferched. Mae tua 80% o ysgolion uwchradd Cymru wedi cymryd rhan yn y rhaglen gan gynnig dros 30 o weithgareddau allgyrsiol i ferched.

### Cronfa Sportlot: Merched

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi £650,000 y flwyddyn o arian SPORTLOT i ddatblygu chwaraeon menywod a merched o 2002 ymlaen.

### Cyfres o Bosteri Menywod a Merched

Er mwyn cynyddu nifer y merched sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, mae'r Cyngor Chwaraeon wedi creu cyfres o bosteri o fenywod mewn chwaraeon; mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu i'r ysgolion.

### Swyddog i'r Wasg

Mae'r Cyngor Chwaraeon wedi penodi sywddog i'r wasg sydd â rôl penodol i gynyddu nifer y datganiadau i'r wasg a'r sesiynau briffio sy'n ymdrin â merched mewn chwaraeon.

**Gorffennaf 2002**